

Amlinelliad o'r Cymhwyster TGAU Busnes – Fersiwn Ymgynghori



Gwnaed i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Cyflwyniad

Yn y ddogfen hon mae trosolwg ar lefel uchel o'r Cymhwyster CBAC TGAU Busnes arfaethedig.

Mae'n seiliedig ar Feini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru (mae adrannau allweddol wedi'u cynnwys yn Atodiad 1). **Rhaid** i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

Bydd yr amlinelliad hwn o'r cymhwyster yn gweithio fel canllaw ar gyfer datblygu'r Fanyleb a'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (DAE).

Trosolwg o'r Cymhwyster

Bydd y cymhwyster TGAU Busnes yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy wneud hyn:

- Cefnogi'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig¹, gan roi cyfle i'r dysgwyr:
 - feithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r cysyniadau sy'n sail i'r dyniaethau, a sut i'w cymhwyso mewn cyd-destunau lleol, cenedlaethol a byud-eang.
 - helpu dysgwyr i gasglu, cyfiawnhau, cyflwyno, dadansoddi a gwerthuso ystod o dystiolaeth
 - archwilio sut a pham y gall dehongliadau wahaniaethu, ac wrth ddatblygu dealltwriaeth feirniadol o ystod o ddehongliadau a ffyrdd o gyfleu, elfennau a gasglwyd o amrywiaeth o dystiolaeth
 - deall a gwerthfawrogi sut a pham mae lleoedd, tirwedd ac amgylchedd yn newid, yn lleol, yng Nghymru, yn ogystal ag yn fyd-eang
 - deall, fel cynhyrchwyr a defnyddwyr, eu heffaith eu hunain ar y byd naturiol
 - meithrin eu hunaniaeth eu hunain ac ymwybyddiaeth o sut y gallan nhw, fel unigolion, siapio'r cymunedau y maen nhw'n byw ynddyn nhw
 - dwysáu ymwybyddiaeth dysgwyr o'r modd y mae'r gweithredoedd hyn yn dylanwadu ar gynaliadwyedd ein byd yn y dyfodol a'r newid yn yr hinsawdd
 - gwerthfawrogi sut mae esblygiad lleoedd, cymunedau a chymdeithasau yn cael ei sbarduno gan y rhyngweithio sydd rhwng ystod o ffactorau, gan gynnwys prosesau amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol, gwleidyddol a diwylliannol, ynghyd â gweithredoedd pobl
 - meithrin dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau fel dinasyddion Cymru a'r byd rhyng-gysylltiedig ehangach
 - annog dysgwyr i ddatblygu fel dinasyddion byd-eang hunanymwybodol, gwybodus ac egwyddorol sy'n myfyrio'n feirniadol ar eu credoau, gwerthoedd a'u hagweddau eu hunain ac eraill.
- Cefnogi'r egwyddorion cynnydd² drwy annog dysgwyr i:
 - ofyn cwestiynau ymholi cynyddol soffistigedig
 - dangos mwy o annibyniaeth wrth ddod o hyd i wybodaeth addas, gan wneud rhagfynegiadau a damcaniaethau gwybodus, a dod i gasgliadau
 - cynyddu ehangder a dyfnder eu gwybodaeth a chysyniadau sylfaenol
 - meithrin dealltwriaeth ohonyn nhw eu hunain yn y byd
 - dangos eu bod yn gallu gweithio gyda nifer cynyddol o ffynonellau gwybodaeth fwyfwy soffistigedig, a dealltwriaeth gynyddol o ffyrdd o ymdrin â hanesion anghyson

¹ <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/datganiadau-o-r-hyn-sy-n-bwysig/>

² <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/egwyddorion-cynnydd/>

- dangos gallu cynyddol i drosglwyddo sgiliau a gwybodaeth bresennol i gyd-destunau newydd a chynyddol anghyfarwydd.
- Cefnogi'r ystyriaethau pwnc-benodol ar gyfer Busnes³ drwy:
 - feithrin dealltwriaeth o fusnes a'i werth i unigolion, i'r gymdeithas ac i economi Cymru, yr economi genedlaethol a'r economi fyd-eang
 - galluogi dysgwyr i werthfawrogi bod yr amgylchedd lle mae busnes yn digwydd yn newid yn gyson
 - gwerthfawrogi effaith busnes ar fywydau pobl ac ar yr amgylchedd
 - archwilio ffyrdd y mae busnesau'n llwyddo neu'n methu a'r strategaethau sydd eu hangen ar gyfer llwyddiant
 - meithrin dealltwriaeth o gyfraniad busnes wrth lywio ffyniant cymunedau ac felly yn llywio disgwiliadau pobl ar gyfer y dyfodol
 - archwilio sut mae busnes yn cael ei greu drwy fenter ac entrepreneuriaeth
- meithrin sgiliau i rymuso gallu busnes i ddatrys problemau a gwneud penderfyniadau.

Bydd y cymhwyster TGAU Busnes yn seiliedig hefyd ar y cysyniadau a ganlyn:

- busnes a'r gymdeithas
- hanfodion busnes
- strategaethau busnes ar gyfer llwyddo
- newid
- cynefin
- economïau
- ymholiad ac ymchwiliad
- menter / entrepreneuriaeth
- moesau
- arloesi
- cyfleoedd a heriau
- cynaliadwyedd.

Strwythur Arfaethedig y Cymhwyster

Uned 1: Cyflwyniad i'r Byd Busnes

Arholiad ysgrifenedig
30% o'r cymhwyster

Uned 2: Themâu Busnes Allweddol

Aseiad di-arholiad
15% o'r cymhwyster

Wedi'i gosod a'i marcio gan CBAC

Uned 3: Gwneud Penderfyniadau Busnes

Arholiad ysgrifenedig
30% o'r cymhwyster

Uned 4: Creu Busnes

Aseiad di-arholiad
25% o'r cymhwyster

Wedi'i gosod gan CBAC, ei marcio gan y ganolfan a'i chymedroli gan CBAC

³ <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/cynllunio-eich-cwricwlwm/#specific-considerations-for-this-area>

Cymhwyster unedol fydd hwn.

Ac eithrio Uned 1, sy'n uned ragarweiniol, nid yw trefn gyflwyno'r tair uned arall yn awgrymu unrhyw hierarchaeth. Felly, nid oes yma awgrym o drefn addysgu benodol.


Gwybodaeth am Unedau

Uned 1 – Cyflwyniad i'r Byd Busnes

Pwrpas yr uned hon yw:

- cyflwyno dysgwyr i gysyniadau allweddol i'w harchwilio yn ystod y cwrs
- cyflwyno dysgwyr i sgiliau
- cyflwyno'r byd busnes a meithrin gwybodaeth er mwyn dadansoddi ac ymchwilio'r themâu sy'n dilyn mewn modd ystyrlon.

Bydd yr uned hon yn seiliedig ar y cysyniadau canlynol:




Asesir yr uned drwy arholiad a fydd ar gael yn y gyfres haf. Bydd cymysgedd o fathau o gwestiynau a fydd yn targedu AA1, AA2 ac AA3. Bydd arholiad ar gael i'r garfan gyntaf yn haf 2026. Mae'n debygol y bydd y pwysoli uchaf am AA1, wedi'i ddilyn gan AA2 ac AA3. Mae'n debygol y bydd yr arholiad tuag 1 awr a 30 munud o hyd. Ni fydd opsiynau yn yr uned hon.

Uned 2 – Themâu Busnes Allweddol

Pwrpas yr uned hon yw:

- caniatáu i ddysgwyr gymhwyso'r hyn y maent wedi'i ddysgu yn Uned 1 at amrywiaeth o themâu o'r Meini Prawf Cymeradwyo a'r Cwricwlwm i Gymru.

Bydd yr uned hon yn seiliedig ar y cysyniadau canlynol:




Asesir yr uned drwy asesiad di-arholiad a fydd ar gael yn y gyfres haf, ac ar gael am y tro cyntaf yn 2026. Bydd cymysgedd o dasgau a fydd yn targedu AA2, AA3 ac AA4. Oherwydd natur ymarferol yr ymchwiliad, mae'n debygol y bydd y pwysoli uchaf am AA4, wedi'i ddilyn gan AA3 (oherwydd y sgiliau ymchwiliol) ac yna AA2. Yn rhan o'r asesiad di-arholiad bydd dysgwyr yn ymchwilio i fusnes yn eu hardal leol (gallai hwn fod yn fenter fach neu ganolig neu'n fusnes cenedlaethol sy'n bodoli yn eu hardal leol). Bydd yn cynnwys tasgau sy'n seiliedig ar ddwy thema o gynnwys yr uned (megis cynaliadwyedd, moeseg neu'r gweithle sy'n newid), a fydd yn cael eu gosod gan CBAC bob blwyddyn. Bydd canolfannau'n gallu dewis o blith y themâu hyn. CBAC fydd yn gosod ac yn marcio'r asesiad di-arholiad. Rhaid cyflwyno'r asesiad yn ddigidol. Mae'n debygol y bydd lefel isel o reolaeth ar y gwaith o ymchwilio i'r busnes fel y gall dysgwyr gael profiad ymholi dilys. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd lefel uchel o reolaeth ar y tasgau i'w hasesu. Bydd tua phedair awr ar gael ar gyfer yr asesiad (dwy awr i ymchwilio a dwy awr i ymateb i dasgau'r asesiad).

Uned 3 – Gwneud Penderfyniadau Busnes

Pwrpas yr uned hon yw:

- datblygu mwy o feddwl yn feirniadol
- meithrin dealltwriaeth dysgwyr o'r materion allweddol sy'n wynebu busnes a ffyrdd o ddatrys y materion hyn.

Bydd yr uned hon yn seiliedig ar y cysyniadau canlynol:




Asesir yr uned drwy arholiad a fydd ar gael yn y gyfres haf. Bydd cymysgedd o fathau o gwestiynau a fydd yn targedu AA1, AA2 ac AA3. Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar feddwl yn feirniadol, felly mae'n debygol y bydd pwysoli AA3 yn uwch yn y papur hwn gyda phwysoli tebyg i AA1 ac AA2. Mae'n debygol y bydd yr arholiad tuag 1 awr a 30 munud o hyd. Ni fydd opsiynau yn yr uned hon.

Uned 4 – Creu Busnes

Pwrpas yr uned hon yw:

- caniatáu i ddysgwyr ystyried ystod o gysyniadau a themâu busnes
- caniatáu i ddysgwyr ystyried sut mae busnesau'n cael eu creu.

Bydd yr uned hon yn seiliedig ar y cysyniadau canlynol:



Asesiad di-arholiad fydd yr uned hon, a fydd ar gael yn y gyfres haf. Bydd cymysgedd o dasgau a fydd yn targedu AA2, AA3 ac AA4. Oherwydd natur ymarferol yr ymchwiliad, mae'n debygol y bydd y pwysoli uchaf am AA4, wedi'i ddilyn gan AA3 (oherwydd y sgiliau ymchwiliol) ac AA2. Ni fydd opsiynau yn yr uned hon. Bydd yr asesiad di-arholiad yn cynnwys asesiad sy'n seiliedig ar sefydlu busnes newydd i fodloni angen yn ardal leol y dysgwr (gallai fod yn angen cymdeithasol, amgylcheddol neu economaidd). Bydd dysgwyr yn nodi ac yn cyfiawnhau'r angen, gan ganiatáu dewis dysgwr. Bydd y canolfannau'n marcio'r asesiad di-arholiad a CBAC yn ei gymedroli. Mae'n debygol y bydd lefel isel o reolaeth ar gyfer cyflawni'r gwaith ymchwil fel y gall dysgwyr gyflawni profiad ymholi dilys. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd lefel uchel o reolaeth ar y tasgau i'w hasesu. Rhaid cyflwyno'r asesiad yn ddigidol. Bydd tua chwe awr ar gael ar gyfer yr asesiad (tair awr i ymchwilio a thair awr i ymateb i dasgau).

Ystyriaeth o hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd

Wrth ddatblygu'r amlinelliad hwn o'r cymhwyster arfaethedig, rydym wedi ystyried hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd a hefyd sut i gydbwysu'r ystyriaethau hyn yng nghyd-destun gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo.

Yn ôl gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo, mae angen asesu 40% drwy asesiad di-arholiad; rhaid i CBAC osod un asesiad di-arholiad, i'w farcio'n fewnol gan yr ysgol, a'i gymedroli gan CBAC. CBAC fydd yn gosod ac yn marcio'r llall.

Mae hyn yn achosi rhai heriau posibl o ran hydrinedd a bwriadwn leihau'r rhain i'r eithaf drwy ledaenu'r llwyth gwaith a'r asesu. Gan fod y Meini Prawf Cymeradwyo'n nodi bod y cymhwyster yn unedol, bwriadwn ddarparu'r asesiad di-arholiad yn nhymor yr haf ym mlwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn yr addysgu. Bydd gwneud hyn yn rhoi rhywfaint o ddewis i'r canolfannau o ran pa bryd i wneud yr asesiadau di-arholiad. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r amser asesu sydd wedi'i ddyrannu i'r ddau asesiad di-arholiad er mwyn ceisio lleihau'r effaith ar addysgu a dysgu. Bydd y ddau asesiad di-arholiad yn cynnwys tasgau sy'n galw

am ymholiad ymarferol (ymchwilio i fusnes ac ymchwilio i angen busnes yn yr ardal leol). O ran yr hydrinedd byddem yn rhagweld bod yma lefel isel o reolaeth fel y gall dysgwyr gyflawni profiad ymholi dilys. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau dibynadwyedd, bydd cyfarwyddyd ar gael o ran y nodiadau y bydd modd eu defnyddio o'r ymholiad ymarferol wrth ymateb i'r tasgau asesu. Wrth gyflawni'r tasgau i'w hasesu, daethpwyd i'r casgliad ei bod yn hanfodol cael lefel uchel o reolaeth er mwyn sicrhau dibynadwyedd. Bydd hyn yn bodloni'r gofyniad yn y Meini Prawf Cymeradwyo bod dysgwyr yn gallu dangos ystod o sgiliau ymholi ac ymchwilio gan gynnwys y gallu i feddwl yn feirniadol a'r gallu i fyfrio.

Credwn y dylai'r cymhwyster arfaethedig gynnig cyfleoedd i ganolfannau ddatblygu rhaglen astudio ddeniadol ar gyfer eu dysgwyr, yn unol â disgyliadau'r Cwricwlwm i Gymru. Bydd Uned 1 yn cyflwyno'r byd busnes yn fras, ac yn caniatáu ymdrin ag amrediad o destunau. Bydd dysgwyr yn gallu meithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r cysyniadau sy'n sail i fusnes, a sut i'w cymhwyso mewn cyd-destunau Cymreig, cenedlaethol a byd-eang. Yn Uned 2 gall dysgwyr archwilio data yng nghyd-destun busnesau a sectorau busnes drwy ymgysylltu â themâu busnes allweddol. Bydd hyn wedyn yn rhoi cyd-destun o'r byd go iawn i ddysgwyr. Bydd Uned 3 yn archwilio penderfyniadau bywyd go iawn mae busnesau'n eu gwneud bob dydd. Bydd hyn yn galluogi dysgwyr i werthfawrogi bod yr amgylchedd lle mae busnes yn digwydd yn newid yn gyson, a hefyd i archwilio ffyrdd y mae busnesau'n llwyddo neu'n methu a'r strategaethau sydd eu hangen ar gyfer llwyddiant. Bydd Uned 4 yn ymgysylltu dysgwyr drwy archwilio'r broses o greu busnes drwy fenter ac entrepreneuriaeth. Hefyd, bydd yn archwilio'r berthynas rhwng busnes a'r gymdeithas. Bydd yr uned yn annog dysgwyr i ystyried yr effaith gadarnhaol bosibl y gall busnesau newydd ei chael ar gymunedau lleol.

Credwn fod yr asesiadau di-arholiad arfaethedig ar gyfer Unedau 2 a 4 yn ffordd ddilys o asesu'r pwrpas a'r cynnwys gan eu bod yn caniatáu i ddysgwyr ddangos eu sgiliau mewn cyd-destunau priodol. Er mwyn sicrhau dilysrwydd yr asesiadau di-arholiad, byddwn yn sicrhau bod pob uned yn targedu'r un pwysoliadau o ran amcanion asesu ym mhob cyfres. Datblygir meini prawf marcio ar gyfer y ddwy uned. Yn achos Uned 4, bydd athrawon yn derbyn pecyn o gefnogaeth a fydd yn sicrhau bod y meini prawf marcio'n cael eu cymhwyso'n gyson ar draws y canolfannau a dros amser. Byddwn yn cymedroli sampl o waith ymgeiswyr o bob canolfan fel ffordd ychwanegol o sicrhau dilysrwydd.

O ran pwrpas a chynnwys Unedau 1 a 3, credwn mai asesiad drwy arholiad yw'r asesiad mwyaf dilys, ac y gall cymysgedd o fathau o gwestiynau ein helpu i wneud y mwyaf o'r dilysrwydd. Wrth i ni ddatblygu asesiadau, byddwn yn sicrhau bod yr holl dasgau'n targedu'r lluniad perthnasol, gan gydbwyso'r cynnwys dros amser yn briodol ac alinio'r eitemau asesu a'r canlyniadau dysgu. Lle y bo'n briodol gwneud hynny, byddwn yn defnyddio data sydd ar gael i ni o ran sut y gweithredodd yr asesiad. I sicrhau eu bod yn ddibynadwy, byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod yr unedau arholiad yn targedu'r un pwysoliadau o ran amcanion asesu a bod lefel y galw'n gyson ym mhob cyfres. Datblygir meini prawf marcio a bydd aseswyr yn cael eu hyfforddi o ran sut i'w cymhwyso'n gyson.

Byddwn yn parhau i ystyried y cydbwysedd o ran hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd ym mhob cam o ddatblygu'r cymhwyster.

ATODIAD

Gwybodaeth allweddol o'r Meini Prawf Cymeradwyo

Daeth y wybodaeth sy'n dilyn yn syth o [Feini Prawf Cymeradwyo - TGAU Busnes](#) Cymwysterau Cymru - ac mae'n rhaid i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

Pwrpas

1. Rhaid i **TGAU Busnes**:
 - 1.1 gael ei dylunio'n bennaf ar gyfer *Dysgwyr* rhwng 14 ac 16 oed
 - 1.2 adeiladu ar y ddealltwriaeth gysyniadol y mae *Dysgwyr* wedi'i datblygu drwy eu haddysg rhwng 3 ac 14 oed
 - 1.3 cefnogi addysgu a dysgu drwy ddarparu cynnwys ac asesiadau sy'n briodol o eang, heriol, perthnasol a diddorol sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru ac yn ei gefnogi, gan gynnwys ei [bedwar diben](#)
 - 1.4 galluogi *Dysgwyr* i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith
 - 1.5 darparu gwybodaeth ystyrlon, deg a chywir am gyflawniad *Dysgwyr* mewn pwnc sy'n amlygu'r hyn y mae *Dysgwyr* yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud

Nodau

2. Rhaid i **TGAU Busnes**:
 - 2.1. ganiatáu i *Ddysgwyr* archwilio amrywiaeth o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas â busnes
 - 2.2. darparu cyfleoedd i *Ddysgwyr* gael eu hasesu mewn amrywiaeth o gyd-destunau perthnasol ac ystyrlon
3. Rhaid i'r cymhwyster **TGAU Busnes** gefnogi *Dysgwyr* i ddatblygu:
 - 3.1. dealltwriaeth o'r gweithgareddau sy'n gwneud busnes yn llwyddiannus
 - 3.2. gwerthfawrogiad o natur gymhleth, blwraliaethol ac amrywiol cymdeithas drwy ddeall rôl a dylanwad busnes ac arloesedd ar bobl, ar leoedd ac ar y gymuned
 - 3.3. dealltwriaeth o brosesau, cymhellion a chanlyniadau busnes yn eu cynefin, a sut y gall y rhain ddylanwadu ar gyfleoedd ar gyfer ffyniant
 - 3.4. dealltwriaeth o'r berthynas rhwng busnes a'r amgylchedd
 - 3.5. dealltwriaeth o dechnoleg a'i heffaith ar fusnes, ar yr amgylchedd ac ar bobl
 - 3.6. dealltwriaeth o oblygiadau moesegol busnes

Amcanion Asesu

- Yn yr asesiad o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol yn y cymhwyster, rhaid targedu'r amcanion asesu canlynol i gyfateb i'r pwysoli a nodir, o fewn goddefiant o +/- 5 pwynt canrannol.

AA1	Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o dermau, cysyniadau a damcaniaethau busnes	25%
AA2	Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o dermau, cysyniadau a damcaniaethau busnes at wahanol gyd-destunau	25%
AA3	Dadansoddi, gwerthuso, neu lunio barn ar faterion busnes gan ddefnyddio cysyniadau, damcaniaethau a data busnes	25%

AA4	Dewis, defnyddio a chymhwyso sgiliau a thechnegau yn ymarferol i wneud ymholiadau sy'n berthnasol i fusnes	25%
------------	---	-----

Cynllun asesu

- Rhaid i'r cymhwyster **TGAU Busnes** fod yn unedol.
- Ni fydd haenau yn y cymhwyster hwn.

Rhaid i'r fanyleb **TGAU Busnes** gynnwys y trefniadau asesu a ganlyn:

11.1. dau asesiad arholiad sydd:

11.1.1. yn cael eu gosod a'u marcio gan y corff dyfarnu

11.1.2 yn cyfrif am 60% o'r cymhwyster

12. Rhaid i amseriad yr arholiadau gael ei osod gan y corff dyfarnu.

13. Rhaid i un uned arholiad fod ar gael yn haf 2026 ar gyfer y garfan gyntaf o *Ddysgwyr* sy'n cymryd y cymhwyster.

14. Rhaid cael dau asesiad di-arholiad sy'n cyfrif am 40% o'r cymhwyster;

14.1. un asesiad di-arholiad wedi'i osod gan y corff dyfarnu, wedi'i farcio'n fewnol gan yr ysgol, a'i gymedroli'n allanol gan y corff dyfarnu

14.2. un asesiad di-arholiad wedi'i osod a'i farcio'n allanol gan y corff dyfarnu y mae'n rhaid i'r ddau ohonynt allu cael eu cyflwyno'n ddigidol